

Cwestiynau Cyffredin i Wirfoddolwyr Cartrefi Gofal

1. Oes angen i mi fod wedi cael y ddau Frechiad Covid-19?

Gwiriwch gyda'r cartref gofal am eu polisi ar ofynion brechu.

2. Fydd rhaid i fi gymryd prawf Covid a gwisgo cyfarpar diogelu personol?

Bydd rheolwr y cartref gofal yn eich cynghori ar eu rheoliadau presennol ar gyfer profion Covid a chyfarpar diogelu personol. Rhaid i chi roi gwybod i reolwr y cartref gofal os oes gennych chi symptomau Covid.

Peidiwch â mynd i'r cartref gofal os oes gennych chi symptomau Covid neu os ydych chi wedi cwrdd â rhywun sydd wedi cael prawf positif.

3. Pa hyfforddiant fydda i'n ei dderbyn?

Cewch eich hyfforddi mewn pynciau hanfodol fel diogelu ac ymwybyddiaeth dementia. Byddwch hefyd yn derbyn hyfforddiant penodol ar gyfer cymryd rhan gyda gweithgareddau'r cartref gofal yn y rôl hon. Bydd yr holl hyfforddiant yn digwydd ar Zoom neu Teams. Mi fyddwch hefyd yn cael cyfnod ymsefydlu yn y cartref gofal.

4. Bydd angen gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd Uwch arnaf?

Bydd angen tystysgrif y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar y rhan fwyaf o gartrefi gofal. Byddant yn darparu arweiniad ac yn cynorthwyo gyda'ch cais. Byddwch yn cael gwybod pan fydd eich cais wedi'i gychwyn.

5. A fydd y cartref gofal yn darparu cymorth i mi?

Bydd gennych bwynt cyswllt yn y cartref gofal a fydd yn darparu'r cyfnod ymsefydlu, gan gynnwys cynllun yr adeilad ac iechyd a diogelwch.

Bydd y cyswllt cartref gofal yn eich hysbysu am ganllawiau diweddaraf Llywodraeth Cymru sy'n gysylltiedig ag ymweliadau cartrefi gofal a'r hyn a ddisgwyllir gennych o fewn y cartref i gadw pawb yn ddiogel.

6. Pa mor aml mae angen i mi ymrwymo i'r rôl hon yn y cartref gofal?

Mae unrhyw amser y gallwch ei roi yn cael ei dderbyn gyda diolch. Fodd bynnag, byddai o fudd i chi a'r cartref gofal gytuno ar batrwm o bresenoldeb. Gall hyn fod cymaint o amser ag y gallwch ei gynnig, os yw'r cartref gofal yn medru hwyluso'r oriau.

7. Oes angen i mi wirfoddoli ar benwythnosau?

Gellir trafod presenoldeb dros y penwythnos gyda chydlynnydd gweithgareddau'r cartref gofal, er bod y rhan fwyaf o wirfoddoli yn digwydd yn ystod yr wythnos.

8. A fydd angen i mi helpu gyda gofal personol preswylwyr y cartref gofal?

Na, eich rôl chi yw cefnogi gweithgareddau a sgysiau gyda phreswylwyr cartrefi gofal. Bydd y staff gofal neu'r teulu/ymwelydd yn darparu unrhyw gymorth y mae ei angen ar y preswylwyr.

9. Allwn i wirfoddoli mewn Cartref Gofal lle mae ffrind neu berthynas yn byw?

Gallwch. Does dim rheswm o gwbl pam na allwch wirfoddoli mewn cartref lle mae rhywun rydych chi'n ei adnabod yn byw.

Mae Age Cymru yn elusen gofrestrdig 1128436. Cwmni cyfyngedig drwy warant ac wedi'i gofrestru yng Nghymru a Lloegr 6837284. Cyfeiriad y swyddfa gofrestrdig yw'r Llawr Gwaelod, Tŷ'r Mariners, Llys Trident, Ffordd Ddwyrain Moors, Caerdydd CF24 5TD. © Age Cymru 2023